CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

472/54

# HANES – HI2

## UNED 2

## ASTUDIAETH O GYFNOD 4

## AGWEDDAU AR HANES CYMRU A LLOEGR, tua 1880-1980

P.M. DYDD MERCHER, 7 Mehefin 2006

(45 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **un** cwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

## UNED 2

## ASTUDIAETH O GYFNOD 4

## AGWEDDAU AR HANES CYMRU A LLOEGR, tua 1880-1980

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

*Yn eu hymateb i'r cwestiwn dehongli, dylai ymgeiswyr ystyried dilysrwydd y dehongliad gan ddefnyddio'u gwybodaeth o'r cyfnod a dehongliadau posibl eraill. Dylai ymgeiswyr hefyd ystyried y ffactorau a allai fod wedi dylanwadu ar y ffordd y ffurfiwyd y dehongliad – megis y math o hanesydd/awdur, y dystiolaeth oedd ar gael i'r hanesydd/awdur a'r dyddiad cyhoeddi.*

**1. Gwleidyddiaeth a chymdeithas, 1918-1939**

'Nid oedd y rhain yn amserau caled – roedd gan y bobl roeddwn i'n eu hadnabod ddigon o fwyd. Roedd digon o fwyd yn ein siopau os oedd gennych yr arian i'w brynu, ac roedd gennym ddigon o laeth ffres i'w yfed.'

[Catherine Reason, yn cofio ei bywyd fel mam 30 oed yng Nghaerdydd yn ystod y 1930au, mewn llyfr o atgofion, *The Experiences of Wales in the Depression* (1986)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o effeithiau cymdeithasol y Dirwasgiad? [80]

**2. Polisi tramor, 1918-1939**

'Y ffordd orau i ddisgrifio polisi tramor Prydain yw i'r diamcan a'r di-asgwrn-cefn, dan bwysau oddi wrth y didostur *(ruthless)*, ddod at ei gilydd i gyflawni'r hyn oedd yn ddi-werth.'

[Norman Davies, hanesydd academaidd yn arbenigo ar hanes Ewrop, yn ei lyfr hanes cyffredinol, *Europe - A History* (1996)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o bolisi tramor Prydain rhwng 1918 a 1939? [80]

**3. Y newid yn rôl a statws menywod, 1900-1939**

'Rhwng 1900 a 1939, rhoddwyd ystyriaeth ddwys iawn i faterion menywod, a chymerwyd camau mawr ymlaen.'

[Mary Stott, hanesydd ffeministaidd, yn ysgrifennu erthygl yn dwyn y teitl *When Women were in Charge*, mewn atodiad addysgol i bapur newydd y *Guardian* (Chwefror 1993)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o'r newid yn rôl a statws menywod o 1900 hyd at 1939? [80]